# Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Cawsom Iaith i'w Chadw

Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen,
NP44 4HB.

Ffôn/Telephone: 01633 483383
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk
Twitter : @YGCwmbran
Schoop: 10319

**Pennaeth/Headteacher: Miss C Evans**


03/07/24

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Rydym yn agosáu at ddiwedd blwyddyn arall ac un bu'n llawn profiadau dysgu cyfoethog i'n disgyblion.

**Staff**

Byddwn yn ffarwelio ag aelod o staff sydd wedi bod yn aelod gwerthfawr o deulu Ysgol Gymraeg Cwmbrân ers sawl blwyddyn. Dymunwn y gorau i'r dyfodol i Mrs Shelley Lewis. Bydd Mrs Lewis yn arwain Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Ysgol Pwll Coch yng Nghaerdydd. Diolch iddi am ei hymroddiad a'i gwaith caled.

**Gwisg Ysgol**

Mae gennym lawer o wisg ysgol ail law o 3 i 11+ oed. Mae'r cyfan mewn cyflwr gwych. Gofynnwch wrth staff y Swyddfa os hoffech rai eitemau ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.

**Clwb Brecwast**

Os yw'ch plentyn yn mynychu'r Clwb Brecwast neu os ydych yn dymuno i'ch plentyn ddechrau mynychu ym mis Medi, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru newydd ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd. Bydd pob plentyn sy'n mynychu ar hyn o bryd yn dod â ffurflen adref gyda nhw cyn diwedd y tymor. Dychwelwch hon cyn gynted â phosibl os gwelwch yn dda. Bydd ffurflenni hefyd ar gael o swyddfa'r ysgol.

**Sesiynau Coginio i'r teulu a grŵp garddio pontio'r cenedlaethau**

Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus yn ein cais am grant 'Food4growth'. Rydym wedi trefnu sesiynau coginio am ddim i'n teuluoedd ac mae manylion wedi'u hanfon ymlaen drwy Schoop. Byddem yn annog rhiant/gwarcheidwad neu aelod o'r teulu estynedig i ddod gyda'ch plentyn. Yn ogystal, byddwn yn cynnal grŵp garddio sy'n pontio'r cenedlaethau ac yn edrych am wirfoddolwyr i roi ychydig o'u hamser i helpu i ddatblygu sgiliau garddio ein disgyblion. Rhowch wybod i mi os byddai aelod o'ch teulu yn ystyried ein helpu gyda hyn yn y flwyddyn academaidd newydd.

**Calendr**

Cofiwch wirio'r calendr ar wefan yr ysgol am fanylion gweithgareddau a digwyddiadau hyd at ddiwedd y tymor.

Bydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r haf am **1:15yp** ar ddydd Gwener, 19eg o Orffennaf. Byddwn yn croesawu'r disgyblion yn ôl ar gyfer Tymor yr Hydref ar **Ddydd Mawrth, Medi 3ydd.**

Bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion ar yr **11eg o Hydref** oherwydd hyfforddiant staff.

Hoffwn ddiolch i'r holl staff am eu gwaith caled, a diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir

*C N Evans*

**C N Evans**